Annwyl Gwsmer,

## <u>Cau Gwasanaeth Heb Gynllunio</u>

**Gwasanaethau Allgymorth Penfro**
**Yn cael effaith ar Wasanaethau Symudol Angle, Broadmoor, Lawrenni, St Florence, Llanisan-yn-Rhos, Milton, Dale, Carew a Herbrandston**

Fel y gwyddoch efallai, oherwydd problemau gweithredol, daeth gwasanaeth Cerbyd Symudol Penfro yn y mannau uchod i ben ddydd Llun 03 Tachwedd 2025. Mae'n ddrwg gennyf am fod yn hwyr yn rhoi gwybod y tro hwn.

Hoffwn eich sicrhau ein bod yn gweithio'n galed i gadw unrhyw gyfnod o fod ar gau cyn fyrred â phosib, ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried y dewisiadau a fydd yn ein galluogi i adfer gwasanaeth Symudol Swyddfa'r Post i'r gymuned leol. Gobeithio y byddaf mewn gwell sefyllfa i roi gwybodaeth i chi unwaith y bydd yr holl gynlluniau wedi'u cwblhau yn y dyfodol agos.

Os ydych yn gynrychiolydd lleol, cofiwch rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gwasanaeth newydd, byddwch cystal â chysylltu â'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn unol a'r manylion isod. Sylwch na fydd eich sylwadau'n cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn i ni wneud hynny wrth nodi "Cyfrinachol / In Confidence" yn glir arnyn nhw.

Mae'r cyfathrebiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud â Hysbysu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch i chi am eich cymorth i adfer un o wasanaethau Swyddfa'r Post.

Yr eiddoch yn gywir,

*Fiona Shanahan*

**Fiona Shanahan**
**Rheolwraig Newidiadau Ardal**

Sut i gysylltu â ni:

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: 100 Wood Street, London EC2V 7ER.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig: 100 Wood Street, Llundain EC2V 7ER.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Postoffice.co.uk

# Manylion am ganghennau yn lle Gwasanaeth Symudol Angle

**Mae yna adegau o bosibl pan fydd ein canghennau'n gorfod newid eu horiau agor. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau, gan gynnwys gwasanaethau Swyddfa'r Post eraill yn yr ardal, ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**I gael gwybod mwy am y cynhyrchion sydd ar gael, ffoniwch 03457 223344.**
**Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan bostfeistr y gangen.**

**Rydym yn gwerthu gwasanaethau'r Post Brenhinol a Parcelforce Worldwide.**
**Mae gwasanaethau post gan gwmnïau eraill hefyd ar gael mewn canghennau penodol.**

| Swyddfa Bost Monkton | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Siop SPAR<br>Long Mains<br>Monkton<br>Penfro<br>SA71 4NA | Yn cynnig gwasanaethau tebyg, yn ogystal ag Arian Teithio mewn Ewros, ond dim Gwirio ac Anfon Pasbort, Treth Cerbydau nac Yswiriant Teithio Ar Gais. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun - Sul: 08:00 – 20:00 | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad, gyda drysau awtomatig llydan wrth y fynedfa. |

**Cyrraedd yno**

Tua 8.3 milltir o Wasanaeth Symudol Angle, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio y tu allan i'r gangen. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd rhwng Gwasanaeth Symudol Angle a'r gangen hon ac mae yna arhosfan bysiau o fewn 900 metr.

| Swyddfa Bost Penfro | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| 49 Y Stryd Fawr<br>Penfro<br>SA71 4JT | Yn cynnig yr un gwasanaethau, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun–Gwen: 09:00 – 17:30<br>Sad: 09:00 – 16:00<br>Sul: Ar Gau | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad. |

**Cyrraedd yno**

Tua 10 milltir o Wasanaeth Symudol Angle, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio am amser cyfyngedig gyferbyn â'r gangen. Mae yna wasanaeth bws rheolaidd rhwng Gwasanaeth Symudol Angle a'r gangen hon ac mae yna arhosfan bysiau o fewn 290 metr.

# Manylion am ganghennau yn lle Gwasanaeth Symudol Broadmoor

| Swyddfa Bost Cilgeti | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Heol Caerfyrddin<br>Cilgeti<br>SA68 0UF | Yn cynnig yr un gwasanaethau, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun–Gwen 09:00 – 17:30<br>Sad 09:00 – 13:00<br>Sul Ar Gau | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad. |

**Cyrraedd yno**

Tua dwy filltir o Wasanaeth Symudol Broadmoor, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio gyferbyn â'r gangen, ar Heol yr Orsaf. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Gwasanaeth Symudol Reynalton | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Cilfan ger y Caban Bws<br>Reynalton<br>Cilgeti<br>SA68 0PE | Yn cynnig gwasanaethau tebyg, ar wahân i ddewis eang o Arian Teithio ac Yswiriant Teithio Ar Gais. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Mer 11:30 – 12:30 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |

**Cyrraedd yno**

Tua 1.9 milltir o Wasanaeth Symudol Broadmoor, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y Cerbyd Symudol. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

# Manylion am ganghennau yn lle Gwasanaeth Symudol Lawrenni

| Swyddfa Bost Cilgeti | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Heol Caerfyrddin<br>Cilgeti<br>SA68 0UF | Yn cynnig yr un gwasanaethau, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun–Gwen 09:00 – 17:30<br>Sad 09:00 – 13:00<br>Sul Ar Gau | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad. |

| | |
|---|---|
| Llun–Gwen | 09:00 – 17:30 |
| Sad | 09:00 – 13:00 |
| Sul | Ar Gau |

**Cyrraedd yno**

Tua 8 milltir o Wasanaeth Symudol Lawrenni, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio gyferbyn â'r gangen, ar Heol yr Orsaf. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Swyddfa Bost Saundersfoot | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Siop SPAR<br>Y Forlan<br>Saundersfoot<br>SA69 9ES | Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ac eithrio Gwirio ac Anfon Pasbort ac Yswiriant Teithio Ar Gais. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun – Sad 09:00 – 17:30<br>Sul 09:00 – 15:00 | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad. |

| | |
|---|---|
| Llun – Sad | 09:00 – 17:30 |
| Sul | 09:00 – 15:00 |

**Cyrraedd yno**

Tua 9 milltir o Wasanaeth Symudol Lawrenni, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio am gyfnod cyfyngedig y tu allan i'r gangen. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

# Manylion am ganghennau yn lle Gwasanaeth Symudol St Florence

| Swyddfa Bost Dinbych-y-pysgod | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Siop Premier<br>Rhodfa'r De<br>Dinbych-y-pysgod<br>SA70 7DL | Yn cynnig yr un gwasanaethau, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun – Sad: 08:00 – 21:00<br>Sul: 08:00 – 20:00 | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad. |

| Llun – Sad | 08:00 – 21:00 |
|---|---|
| Sul | 08:00 – 20:00 |

**Cyrraedd yno**

Tua 4 milltir o Wasanaeth Symudol St Florence, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio, ynghyd â'r defnydd o gilfannau i bobl anabl, gyferbyn â'r gangen. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Swyddfa Bost Cilgeti | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Heol Caerfyrddin<br>Cilgeti<br>SA68 0UF | Yn cynnig yr un gwasanaethau, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun–Gwen: 09:00 – 17:30<br>Sad: 09:00 – 13:00<br>Sul: Ar Gau | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad. |

| Llun–Gwen | 09:00 – 17:30 |
|---|---|
| Sad | 09:00 – 13:00 |
| Sul | Ar Gau |

**Cyrraedd yno**

Tua 5.3 milltir o Wasanaeth Symudol St Florence, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio gyferbyn â'r gangen, ar Heol yr Orsaf. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

# Manylion am ganghennau yn lle Gwasanaeth Symudol Llanisan-yn-Rhos

| Gwasanaeth Symudol Marloes | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Gyferbyn â'r Lobster Pot Inn<br>Marloes<br>Hwlffordd<br>SA62 3AZ | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Iau: 13:00 – 14:00 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |

**Cyrraedd yno**

Tua 3.4 milltir o Wasanaeth Symudol Llanisan-yn-Rhos, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y Cerbyd Symudol, ac mae mannau parcio penodol i bobl anabl. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Swyddfa Bost Hakin | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| 31 Heol Gelliswick<br>Hakin<br>Aberdaugleddau<br>SA73 3RD | Mae'n cynnig Arian Teithio mewn Ewros/Doleri, ond dim Treth Cerbydau, Yswiriant Teithio Ar Gais na Gwirio ac Anfon Pasbort. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun–Gwen: 09:00 – 17:30<br>Sad: 09:00 – 12:30<br>Sul: Ar Gau | Mae stepen wrth fynedfa'r adeilad. |

**Cyrraedd yno**

Tua 5.7 milltir o Wasanaeth Symudol Llanisan-yn-Rhos, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio y tu allan i'r gangen. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Swyddfa Bost Aberllydan | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Heol Enfield<br>Aberllydan<br>Hwlffordd<br>SA62 3JW | Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ac eithrio Treth Cerbydau, Yswiriant Teithio Ar Gais a Gwirio ac Anfon Pasbort. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun, Maw, Iau a Gwen: 09:00 – 13:00, 14:00 – 17:30<br>Mer a Sad: 09:00 – 12:30<br>Sul: Ar Gau | Mynediad gwastad drwy gyfrwng ramp, â chanllaw, wrth y fynedfa i'r adeilad. |

**Cyrraedd yno**

Tua 5.8 milltir o Wasanaeth Symudol Llanisan-yn-Rhos, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y gangen. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

# Manylion am ganghennau yn lle Gwasanaeth Symudol Milton

| Gwasanaeth Symudol Cosheston | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Maes Parcio Neuadd y Pentref<br>Cocheston<br>Doc Penfro<br>SA72 4UA | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Gwen: 12:00 – 13:00 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |

| | |
|---|---|
| Gwen | 12:00 – 13:00 |

**Cyrraedd yno**

Tua 2.6 milltir o Wasanaeth Symudol Milton, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y Cerbyd Symudol. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Swyddfa Bost Penfro | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| 49 Y Stryd Fawr<br>Penfro<br>SA71 4JT | Yn cynnig yr un gwasanaethau, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| (gweler y tabl isod) | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad. |

| | |
|---|---|
| Llun–Gwen | 09:00 – 17:30 |
| Sad | 09:00 – 16:00 |
| Sul | Ar Gau |

**Cyrraedd yno**

Tua 4.5 milltir o Wasanaeth Symudol Milton, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio am amser cyfyngedig gyferbyn â'r gangen. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

# Manylion am ganghennau yn lle Gwasanaeth Symudol Dale

| Gwasanaeth Symudol Marloes | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Gyferbyn â'r Lobster Pot Inn<br>Marloes<br>Hwlffordd<br>SA62 3AZ | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Iau: 13:00 – 14:00 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |

**Cyrraedd yno**

Tua 3.2 milltir o Wasanaeth Symudol Dale, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y Cerbyd Symudol, ac mae mannau parcio penodol i bobl anabl. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Swyddfa Bost Hakin | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| 31 Heol Gelliswick<br>Hakin<br>Aberdaugleddau<br>SA73 3RD | Mae'n cynnig Arian Teithio mewn Ewros/Doleri, ond dim Treth Cerbydau, Yswiriant Teithio Ar Gais na Gwirio ac Anfon Pasbort. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun–Gwen: 09:00 – 17:30<br>Sad: 09:00 – 12:30<br>Sul: Ar Gau | Mae stepen wrth fynedfa'r adeilad. |

**Cyrraedd yno**

Tua 9.4 milltir o Wasanaeth Symudol Dale, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio y tu allan i'r gangen. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Swyddfa Bost Aberllydan | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Heol Enfield<br>Aberllydan<br>Hwlffordd<br>SA62 3JW | Mae'n cynnig gwasanaethau tebyg, ac eithrio Treth Cerbydau, Yswiriant Teithio Ar Gais a Gwirio ac Anfon Pasbort. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun, Maw, Iau a Gwen: 09:00 – 13:00, 14:00 – 17:30<br>Mer a Sad: 09:00 – 12:30<br>Sul: Ar Gau | Mynediad gwastad drwy gyfrwng ramp, â chanllaw, wrth y fynedfa i'r adeilad. |

**Cyrraedd yno**

Tua 8.2 milltir o Wasanaeth Symudol Dale, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y gangen. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

# Manylion am ganghennau yn lle Gwasanaeth Symudol Carew

| Gwasanaeth Symudol Cosheston | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Maes Parcio Neuadd y Pentref<br>Cocheston<br>Doc Penfro<br>SA72 4UA | Yn cynnig yr un gwasanaethau. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Gwen 12:00 – 13:00 | Mae yna stepen i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau. |

**Cyrraedd yno**

Tua 2.6 milltir o Wasanaeth Symudol Carew, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio wrth ymyl y Cerbyd Symudol. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Swyddfa Bost Penfro | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| 49 Y Stryd Fawr<br>Penfro<br>SA71 4JT | Yn cynnig yr un gwasanaethau, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio. |
| **Yr oriau agor** | **Mynediad** |
| Llun–Gwen 09:00 – 17:30<br>Sad 09:00 – 16:00<br>Sul Ar Gau | Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad. |

**Cyrraedd yno**

Tua 5 milltir o Wasanaeth Symudol Carew, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio am amser cyfyngedig gyferbyn â'r gangen. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

## Manylion am ganghennau yn lle Gwasanaeth Symudol Herbrandston

| Swyddfa Bost Hakin | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| 31 Heol Gelliswick<br>Hakin<br>Aberdaugleddau<br>SA73 3RD | Mae'n cynnig Arian Teithio mewn Ewros/Doleri, ond dim Treth Cerbydau, Yswiriant Teithio Ar Gais na Gwirio ac Anfon Pasbort. |

| Yr oriau agor | |
|---|---|
| Llun–Gwen | 09:00 – 17:30 |
| Sad | 09:00 – 12:30 |
| Sul | Ar Gau |

**Mynediad**

Mae stepen wrth fynedfa'r adeilad.

**Cyrraedd yno**

Mae'r gangen hon tua dwy filltir o Wasanaeth Symudol Herbrandston, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio y tu allan i'r gangen. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

| Swyddfa Bost Aberdaugleddau | Gwasanaethau ar gael |
|---|---|
| Nisa Local<br>55 Heol Siarl<br>Aberdaugleddau<br>SA73 2AA | Yn cynnig yr un gwasanaethau, yn ogystal â dewis cynhwysfawr o Arian Teithio. |

| Yr oriau agor | |
|---|---|
| Llun–Gwen | 09:00 – 17:30 |
| Sad | 09:00 – 12:30 |
| Sul | Ar Gau |

**Mynediad**

Mae'r llawr i mewn i'r adeilad yn wastad.

**Cyrraedd yno**

Tua thair milltir o Wasanaeth Symudol Herbrandston, ar hyd tir amrywiol ei natur. Mae modd parcio, lle mae cilfan am amser cyfyngedig i yrwyr anabl, gerllaw. Nid oes gwasanaeth bws uniongyrchol rhwng y gwasanaethau hyn, ond mae yna fysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu Braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

*Byddwn yn* ***Hysbysu*** *– pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau agor
- Cau nas cynlluniwyd[1]/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth lleol, Age Uk, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk**
**Comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir cael gwasanaeth yn lle'r un a gafodd ei gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.